 
**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 8

## YMDDIRIEDOLAETHAU

*Buddiannau buddiolwyr o dan ymddiriedolaethau penodol*

11 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys pan ddelir eiddo mewn ymddiriedolaeth o dan gyfraith yr Alban, neu gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig, o dan delerau sy'n golygu, pe bai'r ymddiriedolaeth yn cael effaith o dan gyfraith Cymru a Lloegr, yr ystyrid bod gan fuddiolwr fuddiant ecwitïol yn eiddo'r ymddiriedolaeth.

(2) Mae'r buddiolwr i'w drin at ddibenion y Ddeddf hon fel pe bai ganddo fuddiant ecwitïol yn eiddo'r ymddiriedolaeth er gwaethaf y ffaith na chydnabyddir unrhyw fuddiant o'r fath gan gyfraith yr Alban nac, yn ôl y digwydd, y wlad neu'r diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

(3) Mae caffael buddiant buddiolwr o dan yr ymddiriedolaeth i'w drin fel pe bai'n ymwneud â chaffael buddiant yn eiddo'r ymddiriedolaeth.